Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

*Welsh Language Advisory Panel*

8 Mawrth 2023 am 2yp
Cyfarfod Aml-leoliad

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyng. Glynog Davies | GD | Plaid Cymru (Cadeirydd) |
| Cyng. Andrew Davies | AD | Plaid Cymru |
| Cyng. Tina Higgins | TA | Llafur |
| Cyng. Peter Hughes-Griffiths | PHG | Plaid Cymru |
| Cyng. Jean Lewis | JL | Plaid Cymru |
| Cyng. Liam Bowen | LB | Plaid Cymru |
| Cyng. Kevin Madge | KM | Llafur |
| Swyddogion | | |
| Paul Thomas | PT | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Noelwyn Daniel | ND | Pennaeth Technoleg Gwybodaeth a Pholisi |
| Llinos Evans | LLE | Rheolwr Polisi a Chynnwys |
| Myfanwy Jones | MJ | Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg |
| Sioned Raymond | SR | Swyddog Polisi Graddedig |
| Mared Pemberton | MP | Cydlynydd Rhaglen |

| Rhif | Testun a phwyntiau gweithredu | Yn gyfrifol |
|---|---|---|
| **1.** | Croeso ac Ymddiheuriadau<br><br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Glynog Davies.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sue Allen, Cynghorydd Carys Jones a Gwyneth Ayers. | |
| **2.** | Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br><br>Derbyniwyd y cofnod fel un cywir. | |

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | Cyflwyniad ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021<br><br>Croesawyd Martin Parry o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod. Mae Martin yn arwain y tîm Ystadegau o fewn y Llywodraeth.<br><br>Esboniodd MP y cyd-destun o ran data'r Cyfrifiad a phwysigrwydd y data wrth gynllunio ein gwaith o gynllunio ieithyddol.<br><br>Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:<br><br>• Canrannau plant a phobl ifanc y dair ardal arall wedi aros yn gyson ond llai o ostyngiad yn y niferoedd ymhlith pobl hyn.<br><br>• Sut mae cymunedau Cymraeg wedi newid dros amser –<br><br>• Ardal Brynaman 62.5% -<br><br>• Brynaman, Pontyberem, Tymbl, Cydweli, Llanybydder a Cross Hands<br><br>• Yr unig sir sydd wedi gweld gostyngiad ar draws bob grŵp oedran<br><br>• Newid yn y boblogaeth –<br><br>• 2.2% o gynnydd yn y boblogaeth, i 187,900 yn 2021<br><br>• Gwlad enedigol – mwyafrif helaeth wedi'u geni yn Lloegr<br><br>Esboniodd MP fod Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi mynd i gyfeiriad gwahanol iawn i ganlyniadau'r Cyfrifiad. Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford wedi gosod tasg o ran mynd i'r afael a'r rhesymau am y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau.<br><br>Diolchwyd i Martin am ei gyflwyniad manwl a'i waith paratoi. Gosodwyd cyd-destun manwl i ganlyniadau'r Cyfrifiad yn y sir, gan roi her glir i'r Panel ac i'r Cyngor o ran gweithredu at y dyfodol.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y pwyntiau canlynol<br>• Pa mor anodd oedd hi i gynnal y Cyfrifiad yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran plant a theuluoedd iau<br>• Asesiad gan rieni ar blant iau yn ffactor bwysig ymhlith y grwpiau iau.<br><br>Esboniodd MP y bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi tablau adeiladu hyblyg yn ystod yr wythnosau nesaf a fydd yn ein caniatáu i groes gyfeirio data o ran y Gymraeg gyda meysydd eraill.<br><br>Cytunwyd y byddai'r Tîm Polisi yn cysylltu gyda MP o ran dadansoddiad pellach o ran y Cyfrifiad.<br><br>Nododd KM ei fod wedi gweld newidiadau demograffig helaeth yn ei ardal dros y blynyddoedd diwethaf a bod sefydliadau megis o ran yr Eglwysi a'r Capeli lle roedd y Gymraeg yn greiddiol, wedi dirywio. | LLE |

| | | |
|---|---|---|
| | Er hynny, nodwyd mae 2022 oedd y tro cyntaf i fwy o ddisgyblion fynd i'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Aman na'r ffrwd Saesneg.<br><br>Gofynnodd TH beth gall y Cyngor ei wneud i helpu ysgolion i godi'r safon o ran yr Iaith yn dilyn y pandemig?<br><br>Nododd JL bod gweld y gostyngiad llai yn yr oed ieuengaf, yn lled galonogol. Ychwanegodd MP bod mwy o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ond dyw'r niferoedd ddim yn cyplysu nol gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad. Bydd y tîm yn edrych ar ddata'r Cyfrifiad a chysylltu nol gyda'r data ysgolion yn ystod y flwyddyn sydd i ddod er mwyn adnabod pa deuluoedd sy'n llai tebygol o nodi eu bod yn siarad Cymraeg.<br><br>Cafwyd cwestiwn o ran y mathau o stoc tai sy'n denu siaradwyr Cymraeg ac os oes modd edrych ar hynny? Nodwyd enghraifft ardal Machynys, sydd wedi gweld cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, o bosib oherwydd y math o ddatblygiad sydd yno. Nododd MP y bydd y Llywodraeth yn edrych ar sut mae siaradwyr Cymraeg yn symud yng Nghymru a thu hwnt. Byddant yn edrych ar gofrestriadau meddygon teulu er mwyn sefydlu symudedd pobl ar draws Cymru.<br><br>Nododd KM ei ofid am ddylanwad y cyfryngau cymdeithasol ar bobl ifanc, sy'n tueddu bod drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn cynnwys cwestiynau i blant a phobl ifanc o ran defnydd ac mae'r canlyniadau yn amlygu mai trwy gyfrwng y Saesneg y tuedda pobl ifanc ddefnyddio'r platfformau hynny.<br><br>Gofynnodd ND a oes modd cadw mesur agosach ar ddata o ran y Gymraeg rhwng cyfnodau'r Cyfrifiad? A oes pŵer gan Lywodraeth Cymru i fesur yn fwy rheolaidd? Nodwyd risg o ran tanseilio polisi cyhoeddus o ran y Gymraeg gydag ambell theori am y gwahaniaeth rhwng canlyniadau y Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol.<br>Tybed a ydy pobl yn fwy cydwybodol wrth ateb y Cyfrifiad oherwydd ffurfioldeb yr arolwg hynny?<br><br>Esboniodd MP y bydd y tîm yn edrych ar yr Arolwg Poblogaeth gan drio cyplysu'r canlyniadau a gweld pwy sydd wedi ymateb yn wahanol i'r Cyfrifiad. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar grwpiau oedran, daearyddiaethau gwahanol ayyb.<br><br>Nodwyd hefyd bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn edrych ar y Cyfrifiad at y dyfodol, sy'n ychwanegu mwy o bwysigrwydd o ran mesur yn gyson am y Gymraeg.<br><br>Cytunwyd i gylchredeg copi o'r sleidiau wedi'r cyfarfod.<br><br>Cytunwyd i wneud ymholiadau o ran trefnu cyflwyniad i Gabinet y Cyngor.<br><br>Diolchwyd yn ddiffuant i MP am ei gyflwyniad manwl. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>LLE<br><br>LLE |
| 4. | Cylch Gorchwyl y Panel<br><br>Amlinellodd LLE gylch gorchwyl y Panel a nodwyd y byddai angen mynd â hwy yn ôl i'r Cabinet er mwyn cytuno unrhyw ddiweddariadau.<br><br>Cytunwyd ar y newidiadau canlynol: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Newid unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd Gweithredol i'r Cabinet<br>• Newid aelodaeth y Panel i adlewyrchu gweinyddiaeth newydd y Cyngor<br><br>Tanlinellodd PHG bwysigrwydd y cyflwyniad a gafwyd yn ystod y cyfarfod, a'r her y mae'n ei osod i'r Cabinet ac i'r Cyngor o ran gweithredu.<br><br>Esboniodd ND fod yr Arweinydd yn cynnull grŵp gyda rhai aelodau Cabinet a swyddogion er mwyn dadansoddi'r canlyniadau a chynllunio gweithredu gan y cyngor.<br><br>Esboniodd MJ fod yr ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a bydd y ddogfen honno yn gosod arweiniad a her i weithredu ar sail sirol.<br><br>Cafwyd trafodaeth am rôl y Mentrau Iaith ac esboniwyd nad yw'r Mentrau yn gwneud gwaith o ran cymreigio busnesau, yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru. | |
| 5. | **Arfor 2**<br><br>Croesawyd Mared Pemberton i'r cyfarfod i sôn am gynllun Arfor 2.<br><br>Esboniodd MP fod £11 miliwn wedi ei ddyrannu drwy law y Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, er mwyn sicrhau ail wedd i'r Rhaglen (ARFOR II) hyd at Fawrth 2025.<br><br>Bydd Arfor 2 yn rhedeg yn 4 Sir; Gwynedd, Sir Fôn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Nod y cynllun yw cefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg i ffynnu drwy weithgarwch economaidd sydd hefyd yn cefnogi'r Iaith.<br><br>Manylodd Mared ar y ffrydiau o fewn y rhaglen, sef:<br>• Llwyddo'n Lleol<br>• Cymunedau Mentrus<br>• Cronfa Her ARFOR<br>• Cryfhau Hunaniaeth Cymunedau ARFOR<br>• Dysgu o'r Rhaglen ARFOR<br><br>Esboniwyd fod Swyddog Rhanbarthol Arfor wedi ei phenodi i arwain ar y rhaglen ac y bydd swyddog yn cael ei recriwtio i bob sir yn fuan.<br><br>Gofynnwyd a fyddai modd i'r Gronfa Her gefnogi gwaith dadansoddi canlyniadau'r Cyfrifiad neu unrhyw brosiectau a fyddai'n deillio o waith ymchwil?<br><br>Gofynnwyd a fyddai modd i fudiadau ieuenctid fel y Ffermwyr Ifanc i wneud cais fel rhan o ffrwd Cymunedau Mentrus?<br><br>Nododd MP y byddai'n hapus i gael sgwrs gydag Aelodau i ran unrhyw syniadau.<br><br>Cytunwyd i gylchredeg y sleidiau wedi'r cyfarfod. Anogwyd yr Aelodau i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r cynllun ac i rannu'r wybodaeth o fewn cymunedau lleol.<br><br>Diolchwyd i Mared am ei chyflwyniad cynhwysfawr. | LLE<br><br>Aelodau |
| 6. | **Blaen raglen waith** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafwyd trafodaeth am flaen raglen waith ar gyfer y Panel.<br><br>Awgrymwyd a cytunwyd ar yr eitemau canlynol ar gyfer y cyfarfod nesaf –<br><br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2<br>• Cyflwyniad gan y Mentrau Iaith<br>• Cyflwyniad gan yr Adran Addysg ar gefnogaeth i ysgolion i wella safonau o ran y Gymraeg a data disgyblion ysgol | |
| 7. | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dim materion yn codi | |
| 8. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>▪ Gorffennaf 5ed, 14:00<br><br>▪ Hydref 11eg, 14:00 | |